**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**CYNLLUN CYNGOR SIR DDINBYCH (ADEILADU PONT CERDDED A BEICIO HARBWR Y FORYD) 2011**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r Cynllun uchod a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych o dan adran 106 (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Fel y'i cadarnhawyd, mae'r Cynllun yn awdurdodi'r Cyngor i adeiladu pont cerdded a beicio dros aber Afon Clwyd yn Harbwr y Foryd, Y Rhyl.

Mae ochr ogledd-ddwyreiniol y bont wedi'i lleoli ar lan aber Afon Clwyd wrth gyfeirnod grid OS 299621.14E, 380855.24N yn Sir Ddinbych ac mae ochr de-ddwyreiniol y bont ar lan aber Afon Clwyd wrth gyfeirnod grid OS 299668.67E, 380798.80N ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Cyfeirnod map yr Arolwg Ordnans SH98.

Gellir archwilio copïau o Offeryn Cadarnhau'r Cynllun sy'n dwyn yr enw "Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012" ynghyd â chopïau o'r planiau perthnasol yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol yn swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN ac yn Swyddfeydd yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Gellir prynu copïau o Offeryn Cadarnhau'r Cynllun sy'n dwyn yr enw "Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Sir Ddinbych (Adeiladu Pont Cerdded a Beicio Harbwr y Foryd) 2011 2012", ac sy'n cynnwys copi o'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd, gan lyfrwerthwyr neu yn uniongyrchol gan y Llyfrfa Cyf.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Cynllun, ac sy'n dymuno herio'i ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno, neu ag unrhyw reoliadau a wnaed odani, mewn perthynas â'r Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i 28 Mawrth 2012, yn gofyn am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn, neu am atal neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Cynllun, yr Offeryn Cadarnhau a'r Hysbysiad Cyhoeddus hwn ar wefan Llywodraeth Cymru yn

http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/localstat/Highways/?skip=1&lang=cy

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru